# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Chwefror 2007 |
| **Amser:** | 9.30 – 12.30 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Blaenoriaethau Polisi a Deddfwriaethol yr UE ar gyfer 2007 |

### Diben y Papur

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i nodi'r materion hynny sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor o ran deddfwriaeth a pholisïau'r Undeb Ewropeaidd yn 2007. Efallai y bydd y Pwyllgor am gyfeirio at y rhain yn ei adroddiad i'r pwyllgor fydd yn ei olynu.

2. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu crynodeb o Raglen Waith a Deddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007 - gweler papur EUR(2) 02-07(p5) - a goblygiadau'r rhaglen honno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### Cefndir

3. Cyhoeddwyd Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007 ar 24 Hydref 2006. Mae'n cynnwys rhestr o'r holl eitemau strategol a'r holl flaenoriaethau y bydd y Comisiwn yn eu cynnig yn 2007. Gweler:

http://ec.europa.eu/atwork/programmes/docs/clwp2007_en.pdf

4. Yr Almaen fydd yn hyrwyddo busnes yr UE yng Nghyngor y Gweinidogion gan mai hi fydd yn llywyddu'r UE yn ystod hanner cyntaf 2007, gyda Phortiwgal yn llywyddu yn ystod yr ail hanner. Slofenia fydd y cyntaf o'r Aelod-wladwriaethau "newydd" i gymryd yr awenau am chwe mis ym mis Ionawr 2008. Am y tro cyntaf, mae'r tair gwlad wedi cynhyrchu rhaglen waith dros 18 mis, gweler:

http://www.eu2007.de/en/The_Council_Presidency/trio/index.html

5. Mae'r Pwyllgorau Pwnc a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi ystyried y blaenoriaethau sy'n berthnasol i'w cylchoedd gwaith nhw ac mae crynodeb o'r hyn a nodwyd yn Atodiad A. Dylid nodi'r eitemau hyn yn yr adroddiadau y bydd y Pwyllgorau'n eu trosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad. Efallai y bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol hefyd yn dymuno cynnwys y rhain yn ei

adroddiad i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad er mwyn i'r Pwyllgor fydd yn ei olynu eu hystyried. Gallai rhai o'r materion hyn fod yn fwy perthnasol i Gymru na'r materion mwy strategol a nodir isod.

6. Mae'r protocol ar gyfer ymdrin â materion yr UE, y cytunwyd arno gan Banel y Cadeiryddion, yn Atodiad B.

## Eitemau Arwyddocaol ar Agenda'r UE yn 2007

7. Mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau wedi dadansoddi rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer 2007 i ddod o hyd i'r eitemau hynny o waith yr UE sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn. Seilir y rhain yn bennaf ar flaenoriaethau gwleidyddol y Comisiwn yn 2007 gan ystyried eu natur strategol a phellgyrhaeddol, eu perthnasedd i Gymru, a diddordebau blaenorol y Pwyllgor. Cant eu grwpio yn unol â blaenoriaethau gwleidyddol presennol yr UE.

## Dyfodol Ewrop

8. Mae llywyddiaeth yr Almaen yn cyd-daro â hanner canfed pen-blwydd Cytundeb Rhufain a fydd yn cael ei ddathlu ar 25 Mawrth ym Merlin gan arweinwyr y gwladwriaethau a'r llywodraethau. Yno, bydd datganiad gwleidyddol ar Werthoedd Ewrop yn cael ei fabwysiadu a bydd hwn yn cyfrannu at y trafodaethau ar ddyfodol y Cytundeb Cyfansoddiadol.

a. Dyfodol Cytundeb Cyfansoddiadol yr UE – bydd yr Almaen yn adfer y trafodaethau ar y Cyfansoddiad yn ystod ei llywyddiaeth. Ar ôl ymgynghori â llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin. Disgwylir i lywyddiaeth Portiwgal ddatblygu'r gwaith hwn, a'r nod yw dod i gytundeb cyn etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mehefin 2009.

b. Dilyniant i'r papur gwyn ar bolisi cyfathrebu Ewropeaidd – bydd hwn yn nodi camau i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng sefydliadau'r UE, yr Aelod-wladwriaethau a dinasyddion. Bydd yn canolbwyntio ar sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer hawliau cyfathrebu; rhoi grym i ddinasyddion (addysg i ddinasyddion); cydweithio â'r cyfryngau; dadansoddi a deall barn y cyhoedd; a datblygu partneriaethau gyda'r prif bartneriaid sefydliadol yn yr Aelod Wladwriaethau er mwyn codi ymwybyddiaeth o berthnasedd yr UE i drafodaethau gwleidyddol ar lefel genedlaethol.

Disgwylir ym mis Mawrth 2007

c. Papur strategaeth ar ehangu – ym mis Rhagfyr 2006, daeth y Cyngor Ewropeaidd i'r casgliad y byddai'r UE yn bwrw ymlaen â'i ymrwymiadau i Groatia, Twrci a'r Balcanau Gorllewinol. Bydd y "Papur Strategaeth" hwn yn cynnwys prif ganfyddiadau'r Adroddiadau Cynnydd ar gyfer y gwledydd hyn ac yn cynnwys argymhellion polisi arfaethedig.

Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ym mis Hydref 2007.

## Ewrop Gymdeithasol, diwygiadau economaidd a'r farchnad sengl

9. Un o’r eitemau mwyaf arwyddocaol ar orwel yr UE yw’r adolygiad pellgyrhaeddol o flaenoriaethau cyllidebol yr UE yn 2008. Bydd rhai eitemau ar agenda’r flwyddyn hon yn cyfrannu at y drafodaeth yn y maes hwn. Yn y cyfamser, bydd llywyddiaethau’r Almaen a Phortiwgal yn canolbwyntio ar gymryd y camau nesaf yn agenda diwygio Economaidd yr UE, gan ddatblygu agenda Lisbon gyda phwyslais penodol yng Nghyngor y Gwanwyn ar wella rheoleiddio. Ar wahân i’r adolygiad sylfaenol o’r farchnad sengl, bydd y Comisiwn hefyd yn mynd i’r afael â meysydd o fewn y farchnad fewnol fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a adawyd allan o gwmpas y gyfarwyddeb gwasanaethau (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2006).

a. Pwyso a mesur realiti cymdeithasol Ewrop – er mwyn i Ewrop ymateb yn well i her globaleiddio, mae’r Comisiwn wedi ymrwymo i bwyso a mesur realiti cymdeithasol Ewropeaidd gyda phwyslais penodol ar fynediad a chyfleoedd. Bydd y Ddogfen Gyfathrebu’n dadansoddi’r prif dueddiadau ym maes newidiadau cymdeithasol ac yn ceisio creu consensws newydd o ran yr heriau cymdeithasol sy’n wynebu pobl Ewrop. Bydd yn hwyluso’r gwaith o lunio polisïau addas ac yn llywio’r drafodaeth ar flaenoriaethau cyllidebol yr UE ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ar 21 Chwefror 2007.

b. Adolygiad canol tymor o weithredu Agenda Cymdeithasol 2005-2010 – Agenda Cymdeithasol yr UE (2005-2010) fydd yn rhoi Strategaeth Lisbon ar waith ym maes cyflogaeth a materion cymdeithasol. Yng ngoleuni canlyniadau’r adolygiad hyd yn hyn, bydd y ddogfen gyfathrebu’n cynnig agenda newydd ar gyfer undod a mynediad at gyfleoedd ac yn nodi ffyrdd o wella’r broses o roi’r agenda ar waith. Bydd hefyd yn adeiladu ar ganlyniadau’r broses o bwyso a mesur realiti cymdeithasol y cyfeiri ati uchod.

Disgwylir i’r ddogfen gael ei mabwysiadu ym mis Tachwedd 2007.

c. Pedwerydd adroddiad ar gydlyniad economaidd a chymdeithasol – yn ogystal ag adrodd ar gyfraniad polisïau Ewropeaidd a chenedlaethol ym maes cydlyniant economaidd a chymdeithasol, mae’r adroddiad yn debygol o bennu cyfeiriad ar gyfer dyfodol polisi rhanbarthol. Mae hwn yn gyfle i’r Comisiwn egluro’r dadleuon dros barhau â’r polisi rhanbarthol gyda golwg ar yr adolygiad o gyllideb yr UE.

Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu yn y Gwanwyn 2007.

d. Adolygiad o’r farchnad sengl – ymrwymodd y Comisiwn i adolygu’r farchnad sengl y llynedd. Bydd yn asesu cyfraniad y Farchnad Sengl ers 1992 ac yn gweld pa gamau sydd eu hangen i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni ei haddewid economaidd a bod dinasyddion yn elwa arni. Dylai’r adolygiad nodi gweledigaeth ar gyfer y Farchnad Sengl a chynnig cyfeiriad polisi ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ar 21 Chwefror 2007

e. Papur gwyn ar strategaeth iechyd – er bod y Comisiwn yn sylweddoli mai ychydig o ddylanwad sydd gan yr UE ym maes iechyd, mae’n credu y gall cyflwyno strategaeth iechyd bennu fframwaith

ar gyfer gwella cydweithio gyda'r Aelod-wladwriaethau a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod iechyd pobl yn gwella ledled Ewrop.

Disgwylir ym mis Mehefin 2007

f. Fframwaith cymunedol ar gyfer gwasanaethau iechyd diogel ac effeithlon (cynnig deddfwriaethol) - mae hwn yn ymwneud â symudedd cleifion a gweithwyr ym maes iechyd rhwng Aelod-wladwriaethau a datblygiadau gofal iechyd. Yr amcan yw sefydlu fframwaith cyfreithiol i sicrhau diogelwch cleifion ble bynnag y darperir gofal iechyd yn yr UE a mynd i'r afael ag ansicrwydd ynghylch perthnasedd cyfraith Ewropeaidd i wasanaethau iechyd sy'n creu rhwystrau i ofal iechyd trawsffiniol.

Disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2007

g. Dogfen gyfathrebu ynghylch strategaeth Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol o ddiddordeb cyffredinol – Cyhoeddwyd Dogfen Gyfathrebu ar wasanaethau cymdeithasol o ddiddordeb cyffredinol yn yr Undeb Ewropeaidd ar 26 Ebrill 2006. Yn dilyn y broses ymgynghori honno, bydd y ddogfen arfaethedig yn egluro sut y mae rheolau'r Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i wasanaethau cymdeithasol – sut y gallant weithredu o'u mewn a chael eu moderneiddio. Bydd hefyd yn cynnig camau pellach i ddatblygu agwedd systematig yn y maes hwn.

Disgwylir i'r ddogfen gael ei mabwysiadu ym mis Tachwedd 2007

h. Dilyniant i'r papur gwyrdd ar bolisi morol – bydd y Ddogfen Gyfathrebu hon yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar bolisi morol, (sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2007), yn dod i gasgliadau gwleidyddol ar ddatblygu agwedd integredig at bolisi morol yn yr UE ac yn cyflwyno rhai camau dilynol y gellir eu cymryd yn y tymor byr.

Disgwylir ym mis Tachwedd 2007

## Newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni

10. Parhau i ddatblygu polisi ynni cyffredin yw prif flaenoriaeth Ewropeaidd a rhyngwladol yr UE, ynghyd â mynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd. Bydd Cyngor y Gwanwyn - cyfarfod o arweinwyr y gwladwriaethau a'r llywodraethau a gynhelir ar 8 a 9 Mawrth 2007 - yn canolbwyntio bron yn llwyr ar fynd i'r afael â'r materion hyn.

a. Adolygiad strategol o ynni ar gyfer Ewrop a chynllun gweithredu ynni'r UE (yn cynnwys elfennau deddfwriaethol) - cyflwynodd y Comisiwn yr adolygiad strategol cyntaf ym mis Ionawr 2007 ynghyd â chynllun gweithredu gyda chamau unigol ar gyfer datblygu polisi ynni'r UE. Mae'n gosod y llwyfan ar gyfer agwedd hirdymor tuag at wella'r farchnad fewnol, cyflymu'r defnydd o dechnoleg newydd, amrywio a sicrhau cyflenwadau y tu mewn ac o'r tu allan i'r UE, a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.

Mabwysiadwyd ar 10 Ionawr 2007

b. Tuag at raglen addasu newid yn yr hinsawdd ar gyfer Ewrop - dyma fydd yn dilyn y papur gwyrdd ar addasu (y gohiriwyd ei gyhoeddi tan fis Mawrth 2007) a bydd yn rhestru’r camau y bydd yn rhaid i’r Comisiwn eu cymryd o ran gwaith addasu. Mae’n ceisio helpu Aelod-wladwriaethau i leihau bygythiad newid yn yr hinsawdd ac i liniaru’r effeithiau negyddol a ddaw yn ei sgil.

Disgwylir ym mis Tachwedd 2007.

c. Papur gwyrdd ar newid yn yr hinsawdd ar ôl 2012 – bydd y Papur Gwyrdd yn cynnig opsiynau ar gyfer polisi’r UE o ran newid yn yr hinsawdd ar ôl 2012 ac yn ymdrin â chydweithio rhyngwladol.

Disgwylir: Ebrill 2007

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r materion perthnasol yn raglen waith y Comisiwn ar gyfer 2007, fel yr awgrymwyd ym mharagraffau 8-10, gan ystyried Datganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw eitemau a nodwyd yn 2006 ac sy’n berthnasol o hyd. Caiff y rhain eu cynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor i’w drosglwyddo i’r Trydydd Cynulliad.

**Sandy Mewies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

Cyswllt: Anna Daniel, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, Swyddfa Brwsel +32 (0)2 226 6692

# Annex A

## Commission’s work programme 2007: Summary of items of interest identified by other Committees

### Culture, Welsh Language and Sport

See (CWLS (2) 02-07 Paper 2), EU Policy and Legislative Priorities for 2007,
7 February 2007

a. Communication on Culture;

b. White Paper on Sport;

### Education and Lifelong Learning

See (ELLS(2) 03-07 (paper 6), EU policy and legislative priorities for 2007, 14 February 2007

a. Erasmus Mundus - Decision establishing a programme to improve the quality of higher education and promote intercultural understanding through cooperation with third countries;

b. Recommendation on the Establishment of the European Credit System for Vocational Education and Training;

c. Recommendation on the quality of teacher education in the member states;

d. Communication on the draft 2008 joint interim report on the implementation of the "Education and Training 2010 work programme";

e. Communication from the European Commission: Modernising school education in Europe.

### Enterprise, Innovation and Networks Committee

See (EIN(2) 01-07 Paper 7), EU policy and legislative priorities for 2007, 17 January 2007

a. EU regional policy - the 4th report on economic and social cohesion;

b. Communication on delivering the Lisbon agenda through the structural funds programmes;

c. Energy policy – the Strategic European Energy Review and the accompanying package on issues such as renewable energies, clean coal and nuclear energy and its follow up;

d. Communication on the future development of the European Research Area;

e. Green paper on urban transport;

f. Action plan for developing a rail freight network;

g. Clarification of state aid rules for the rail transport sector;

h. Follow-up to the Green Paper on an EU Maritime Policy;

i. Proposal for a European Ports Policy;

j. The mid-term review of the implementation of the EU's Social Agenda.

### Environment, Planning and Countryside Committee

See EPC(2)-01-07 (Paper 7), EU policy and legislative priorities for 2007, 25 January 2007.

a. White Paper "Towards a European Climate Change Adaptation Programme";

b. Green Paper on Post-2012 Climate Change;

c. Communication on maritime policy;

d. Action Plan on Sustainable Consumption and Production;

e. CAP Health Check;

f. Communication on the Animal Health Strategy 2007-2013;

g. Regulation on animal by-products;

### Health and Social Services Committee

Items to be considered for the Committee's legacy report, 14 March 2007.

a. Communication on a European Strategy for Social Services of General Interest;

b. Community Framework for safe and efficient health services;

c. White Paper on health strategy: Health in Europe, a strategic approach;

d. White Paper on Nutrition;

e. Communication on Organ Donation and Transplantation;

f. Mental Health Strategy.

### Local Government and Public Services Committee

See (LGPS(2)-01-07 Paper 6), EU policy and legislative priorities for 2007, 18 January 2007.

a. Communication on the implementation of national strategies for Green public procurement based on EU-wide target setting, monitoring and benchmarking.

### Social Justice and Regeneration

See (SJR(2)-02-07 Paper 1), EU policy and legislative priorities for 2007, 1 February 2007.

a. Social Reality Stocktaking;

b. Green Paper on the Establishment of the Second Phase of the Common European Asylum System;

c. Decision designating 2010 as the European Year of combating Poverty and Social Exclusion.

### Equal Opportunities Committee

See (EOC(2)-02-07(p9), Revised paper on suggested areas of interest in the European Commission 2007 work programme, 28 February 2007

a. Legislative proposal for a general framework directive addressing labour migration;

b. Green Paper on the establishment of the second phase of the common European Asylum System;

c. Social reality stocktaking;

d. Communication on the pay gap between women and men.

# Annex B

## Protocol for committee scrutiny and action on EU policy

This protocol was agreed by the Panel of Chairs in April 2005.

1. The key to influencing proposals is to engage with the right players at the right time. This is a suggested general approach to European issues, Committees may wish to consider some or all of the following in order to maximise their effectiveness:

i. Inviting the Welsh Assembly Government to explain the impact of a proposal on Wales, to give its response to the proposal and explain how it is making its views known to the UK government and Commission.
ii. Inviting a Commission representative, UK government officials or MEPs for a direct exchange of views.
iii. Inviting Welsh or UK organisations to the committee or expert witnesses to give their views on any particular issue, (e.g. business representatives, ASPBs, Welsh Local Government Association, social and environmental NGOs, universities).
iv. EU proposals may sometimes cut across several committees remit and will therefore require co-ordination of views and perspectives. In such a case, it may be appropriate for one committee to take the lead.
v. Having agreed its position on an issue, Committees may wish to promote this to the key institutions in the decision-making process, and other relevant players, as follows:
vi. The European Parliament: for example, by communicating this to Wales MEPs and inviting

them to pursue the issue in the European Parliament. Channels open to MEPs to do so include:

- influencing relevant EP committee rapporteurs;
- tabling amendments;
- tabling questions to the Commission and representatives of the Council of Ministers;
- influencing the position of their EP political grouping.

i. The European Commission:

- by responding to Commission consultations;
- inviting the Commission to Committee meetings or engaging in dialogue with the Commission through other opportunities, such as European conferences;
- write to the relevant Commissioner responsible for the policy to promote the Committee's view.

i. In addition to scrutinising the WAG's position, the Committee may wish to write to the relevant UK government Minister to make its view known.
ii. Other potential players include:

- the European committees of the Houses of Parliament, for example, submitting evidence to House of Lords' enquiries;
- Assembly Members of the Committee of the Regions may table amendments to the CoR's reports;
- European associations on which the Assembly is represented and other networks of like-minded regions and organisations. Forming a pan-European coalition on an issue is important for having a wider impact and takes the debate beyond national boundaries.

i. Monitoring the progress of the proposal through the decision-making process, either through updates from the Welsh Assembly Government in particular on the outcome of Council meetings (Minister's report, for example), or through European update briefings from the Members' Research Service.
ii. In the interest of transparency, the Committee Chair should request that WAG systematically brief committees on the outcome of Council of Ministers meetings which are relevant to the committee's remit.
iii. It may be necessary for the committee to re-assess its view in light of the evolving negotiations and to issue a further response at a later stage.